Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Plas y Dderwen**

**Parc Cilddewi Tre Ioan**
**Caerfyrddin**
**SA31 3HP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

15/12/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Cartref Gofal Plas y Dderwen

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Barchester Healthcare Homes Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 69 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 06 Mai 2021 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb


Mae rheolwr profiadol a gaiff ei barchu yn arwain tîm o staff ymroddedig sy'n cael eu gwerthfawrogi gan y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth, eu perthnasau a gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld â'r gwasanaeth. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn defnyddio ei ymweliadau rheoliad 73 ac adnoddau archwilio ansawdd er mwyn sicrhau bod ganddynt oruchwyliaeth dda o'r gwasanaeth.

Mae iechyd a llesiant yr unigolion yn bwysig i'r rhai sy'n gweithio yn y gwasanaeth. Mae'r bobl a'u perthnasau yn ategu hyn. Ar y cyfan, mae'r cofnodion gofal yn cynnwys gwybodaeth am y person ac mae'r bobl a / neu eu cynrychiolwyr yn rhan o'r broses ofal, pan yn bosibl. Mae'r gweithwyr gofal wedi'u hyfforddi'n dda ac maent yn meddu ar wybodaeth am y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth.

Caiff yr amgylchedd a'r cyfarpar eu cynnal a'u cadw'n dda ac maent yn rhoi cymorth i'r bobl fyw mor annibynnol â phosibl.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag wynebu risg o niwed a chamdriniaeth. Mae'r gweithwyr gofal yn wybodus, wedi'u hyfforddi'n dda ac yn poeni am yr unigolion sy'n byw yn y gwasanaeth. Maent hefyd yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl a'r ffordd orau o ddiwallu'r rhain. Mae'r cofnodion gofal yn cynnwys gwybodaeth am ofynion a dewisiadau'r bobl. Mae'r gwasanaeth yn cydgysylltu â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn sicrhau bod y bobl yn cadw mor iach â phosibl.

Mae gweithdrefnau recriwtio, goruchwylio a hyfforddiant da ar waith er mwyn sicrhau bod gan y staff y sgiliau, y wybodaeth a'r dulliau gofalu cywir.  Mae'r staff yn parchu'r rheolwr cyffredinol a gaiff, yn ei dro, ei gefnogi'n dda gan ei reolwr llinell a'r Unigolyn Cyfrifol. Mae'r staff gofal yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu'r bobl a chânt eu cefnogi gan bolisïau a gaiff eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd. Mae mesurau rheoli ac atal heintiau priodol ar waith ac mae'r staff yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau'n glir. Mae'r gwasanaeth yn lân ac mewn cyflwr da ac wedi'i deilwra i anghenion y bobl.

Caiff dewisiadau a barn y bobl eu cydnabod. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn gofyn am farn unigolion sy'n byw ac yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ymweliadau Rheoliad 73. Gall y bobl bersonoli eu hystafelloedd gwely a dewis eu prydau bwyd ac maent yn cael eu cynnwys yn eu gofal pan mae hynny'n bosibl.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl a'u perthnasau'n teimlo eu bod yn cael y gofal sydd ei angen arnynt ac yn canmol y staff. Dywedodd y bobl wrthym; *"I have no complaints, the staff are very kind"*, *"they [care workers] are lovely, they look after me very well"* a "my *wife is being very well looked after, the food is great and there are always choices for her".*

Mae'r gweithwyr gofal yn meddu ar ddealltwriaeth dda o anghenion y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Maent yn gwybod beth yw eu hanghenion gofal penodol a'u dewisiadau dyddiol. Mae'r rhyngweithio rhwng y staff a'r bobl yn garedig ac yn ofalgar. Mae'r gweithwyr gofal yn mwynhau rhoi cymorth i'r unigolion a gweithio yn y gwasanaeth. Dywedwyd wrthym; "I thoroughly enjoy the work" ac "*I love it here; the residents are wonderful".*

Dywedodd yr holl bobl a'r perthnasau y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo fod Plas y Dderwen yn lle diogel i fyw. Gall y bobl a/neu eu cynrychiolwyr godi pryder os bydd angen iddynt wneud hynny. Dywedodd un person wrthym; *"I can raise any concerns and I know they will be dealt with"* ac*"I know I can speak to a member of staff if I have any concerns".* Mae gweithdrefn gwyno glir wedi'i chynnwys yn y wybodaeth a roddwyd i'r bobl a / neu eu cynrychiolwyr wrth iddynt symud i mewn i'r gwasanaeth.

Mae'r cynlluniau gofal a chymorth yn cynnwys manylion da ac yn rhoi ymdeimlad o'r unigolyn. Fodd bynnag, gwelsom nad yw hanesion personol wedi'u cynnwys bob amser. Trafodwyd hyn gyda'r rheolwr cyffredinol yn ystod yr arolygiad. Lle y bo'n bosibl, mae'r bobl a / neu eu cynrychiolwyr yn llofnodi eu cynlluniau gofal er mwyn dangos eu bod yn cael eu cynnwys yn y broses ofalu. Mae gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol yn ymwneud ag anghenion y bobl. Gwelsom yn ystod yr arolygiad fod cyfran o dîm y staff yn gallu cyfathrebu yn Gymraeg.

Mae'r gegin wedi cael sgôr hylendid bwyd o bum seren, gydag amrywiaeth o ddewisiadau dyddiol wedi'u cynnwys ar fwydlenni amrywiol. Dywedodd y bobl wrthym: "*the food is very tasty and nicely presented, and always hot!"* ac *"I like the food and the choices available".* Gwelsom fod y gwasanaeth yn darparu dewisiadau personol y bobl o ran prydau bwyd. Caiff bwydlenni eu diweddaru'n unol â'r tymor a thrwy ymgynghori â'r bobl. Mae'r amseroedd bwyd i'w gweld yn ddigwyddiadau cymdeithasol cadarnhaol iawn ac yn llawn hwyl. Caiff y prydau bwyd eu gweini'n dda i'r bobl sy'n bwyta yn yr ardaloedd bwyta neu yn eu hystafelloedd gwely.

## Yr Amgylchedd

Mae trefniadau ar waith i leihau risgiau i iechyd a diogelwch y bobl. Caiff y cyfarpar diffodd tân a'r cyfarpar symud a chodi a chario eu profi a'u cynnal a'u cadw o fewn yr amserlenni gofynnol. Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng (PEEP) wedi'u teilwra ar gyfer pob unigolyn ac ar gael yn hawdd. Mae larymau argyfwng yn hawdd eu cyrraedd ac mae'r staff yn ymateb iddynt yn amserol pan fyddant yn seinio. Caiff problemau cynnal a chadw eu datrys yn brydlon ac mae rhaglen adnewyddu barhaus ar waith. Cwblheir archwiliadau Iechyd a Diogelwch o'r eiddo.

Mae mesurau atal a rheoli heintiau ar waith. Mae mesurau diogel a priodol ar waith er mwyn i berthnasau a ffrindiau ymweld â'r gwasanaeth. Caiff y mesurau hyn eu hadolygu'n rheolaidd. Caiff sylweddau sy'n beryglus i iechyd eu storio'n ddiogel ac mae ardaloedd cymunedol yn daclus ac yn rhydd rhag peryglon. Mae gan y staff domestig y cyfarpar priodol i gwblhau eu tasgau'n ddiogel. Mae gwiriadau cynnal a chadw ac archwiliadau manwl ar waith. Mae'r amgylchedd yn lân heb unrhyw arogleuon gwael.

Mae'r dodrefn a'r gosodiadau mewn cyflwr da. Mae ystafelloedd gwely'r bobl wedi'u personoli â dodrefn, lluniau, ffotograffau ac eitemau sy'n bwysig i'r unigolyn. Mae enw'r person wedi'i osod ar ddrws eu hystafelloedd gwely er mwyn helpu'r bobl a'r staff. Mae lolfeydd cymunedol ac ardaloedd bwyta ym mhob un o'r cymunedau i'r bobl gymdeithasu. Mae awyrgylch gartrefol ynddynt, gyda lluniau a phwyntiau o ddiddordeb.

Mae'r amgylchedd yn un o'r cymunedau yn cefnogi'r bobl ag anghenion mwy cymhleth drwy chwarae cerddoriaeth amgylchol yn ystod amseroedd bwyd. Mae hyn yn hyrwyddo amgylchedd mwy hamddenol er mwyn i'r bobl fwynhau eu prydau bwyd yn well.

Mae'r gerddi cymunedol yn cynnig ardaloedd diogel a deniadol i'r bobl a'u hymwelwyr eistedd a chymdeithasu yn ystod tywydd cynnes.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae'r staff yn gymwys, yn wybodus ac yn cael eu cefnogi i ofalu am y bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Maent yn cwblhau amrywiaeth o hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant penodol i'r gwasanaeth, ac mae'r cofnodion yn cadarnhau hyn. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym am yr hyfforddiant roeddent wedi ei gwblhau, a gallent ddangos dealltwriaeth dda o'u rôl o ran diogelu unigolion ac arferion symud a chodi a chario diogel. Mae cofnodion y staff yn dangos eu bod yn cael sesiynau sefydlu manwl, sesiynau goruchwylio rheolaidd ac arfarniad blynyddol. Cynhelir gwiriadau cyn cyflogaeth cyn i gyflogeion newydd ddechrau gweithio. Mae'r rhain yn cynnwys gwirio geirdaon a'r hawl i weithio a gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).  Gwelsom fod y cofnodion staff y gwnaethom edrych arnynt yn cynnwys y wybodaeth a'r gwiriadau gofynnol.

Mae'r staff yn dilyn mesurau atal a rheoli heintiau priodol ac maent yn gallu egluro eu cyfrifoldebau o ran lleihau lledaeniad COVID-19. Mae polisïau a gweithdrefnau sy'n gyfredol ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd ar waith i gefnogi'r staff.

Drwy gyfnod yr arolygiad, roedd y staff yn rhyngweithio â'r bobl, ac yn rhoi cymorth iddynt, mewn modd gofalgar a pharchus, sy'n ychwanegu at awyrgylch groesawgar a hapus y gwasanaeth.

Mae'r staff, eu perthnasau a'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld â'r gwasanaeth yn canmol y staff a'r rheolwyr, ac mae eu sylwadau yn cynnwys; “*The carers are very good, and [general manager] is always welcoming and approachable” “the carers are very kind and thoughtful”* a *“[general manager] is very efficient and appears to have her finger on the pulse”.* Mae'r staff yn canmol y rheolwr cyffredinol (sydd wedi dychwelyd i'r gwasanaeth yn ddiweddar) a rheolwyr y gwahanol gymunedau sy'n gweithio yn y gwasanaeth. Dywedwyd wrthym; *“the service has greatly improved since [general manager] has started” “I think [general manager] is marvellous! I love working here", “I can go to my manager at any time, he is always here for us”* a *“the respect given to staff by [general manager] has lifted our morale”.*

Mae trefniadau llywodraethu cadarn ar waith. Mae'r Unigolyn Cyfrifol mewn cysylltiad rheolaidd â'r gwasanaeth ac mae wedi cwblhau ei ymweliadau Rheoliad 73 bob tri mis. Mae AGC wedi cael copïau o'i adroddiadau, sy'n dangos ei fod yn siarad â'r bobl a'r staff fel rhan o'i ymweliadau â'r gwasanaeth. Cadarnhaodd y staff a'r bobl hyn, gydag un aelod o'r staff yn dweud wrthym; *“when [RI] visits he does speak to staff and the residents”*. Caiff amrywiaeth o adnoddau monitro ac archwiliadau eu defnyddio i gefnogi'r rheolwyr a gwaith goruchwylio'r Unigolyn Cyfrifol. Caiff y camau sy'n deillio o'r archwiliadau eu rhoi ar waith a'u hadolygu'n rheolaidd. Mae'r rheolwr cyffredinol yn teimlo ei fod yn cael ei gefnogi'n dda gan ei reolwr llinell, yr Unigolyn Cyfrifol a'r sefydliad.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella |
|---|

| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
|---|---|---|
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**Dyddiad Cyhoeddi** 01/02/2023